# CYNHADLEDD
# ESGOBAETHOL TYDDEWI

## Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi

## St Davids Diocesan Board of Finance

Cyfrifon Cryno

2019

Summarised Accounts

# ST DAVIDS
# DIOCESAN CONFERENCE

---

*Visit our website for further details:*
*www.stdavids.churchinwales.org.uk*

Meithrin Gobaith
ESGOBAETH TYDDEWI
DIOCESE of ST DAVIDS
Growing Hope

Cynhadledd Esgobaethol Tyddewi
Swyddfa'r Esgobaeth
Abergwili, Caerfyrddin SA31 2JG
Ffacs / Fax: 01267 234754

**St Davids Diocesan Conference**
Diocesan Office
Abergwili, Carmarthen SA31 2JG
Ffôn / Tel: 01267 236145

Ebost / Email: Diocese.stdavids@churchinwales.org.uk
Ysgrifennydd Clerigol Hybarch / **Revd C A Mansell** Clerical Secretary
Ysgrifennydd yr Esgobaeth **Mr H N Llewellyn** Diocesan Secretary

Mawrth 2020

Annwyl Aelod

Mae'r cyfrifon sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon yn grynodeb o'r cyfrifon ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

Mae'r wybodaeth a geir ynddynt wedi ei thynnu o'r cyfrifon a archwiliwyd, ond nid yw wedi ei harchwilio fel endid ar wahân gan gyfrifyddion y Bwrdd.

Mae modd cael copi o'r cyfrifon ariannol cyflawn o Swyddfa'r Esgobaeth dim ond i chi wneud cais.

Yr eiddoch yn gywir

N C P Griffin
Cadeirydd y Bwrdd

March 2020

Dear Member

The accounts information included in this document is a summarised version of the financial accounts for the year ended 31 December 2019.

The information contained therein has been extracted from the audited accounts but has not been audited as a separate entity by the Board's accountants.

A copy of the unabridged version of the financial accounts can be obtained from the Diocesan Office on request.

Yours faithfully

Nick C P Griffin
Chairman of the Board

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
## Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

Mae'n dda gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno'u hadroddiad cyfarwyddwyr blynyddol, ynghyd â datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr, sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn ateb gofynion adroddiad a chyfrifon cyfarwyddwyr at ddibenion y Ddeddf Gwmnïau.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisiau cyfrifyddol a fynegir yn y nodiadau i'r cyfrifon, a maent yn cydsynio â dogfen lywodraethol yr elusen, y Ddeddf Gwmnïau 2006, hefyd "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau": Datganiad Arfer Cymeradwy sy'n gymwys i elusennau wrth iddynt baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DG a Gweriniaeth Iwerddon (SAA 102) (megis y diwygiwyd ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu'n cychwyn o 1 Ionawr 2016)

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith gwmnïol, yn cyflwyno'u hadroddiad blynyddol, ynghyd â'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019.

Yr un rhai yw'r Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr, ac o arwyddo fel Ymddiriedolwyr, arwyddant adrannau strategol yr adroddiad yn rhinwedd eu swydd fel Cyfarwyddwyr yn ogystal.

Mae'r adroddiad cyfunol hwn yn bodloni'r gofynion cyfreithiol o ran:

- Adroddiad Cyfarwyddwyr cwmni elusennol
- Adroddiad Strategol dan y Ddeddf Gwmnïau 2006 ac
- Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr dan y Ddeddf Elusennau 2011.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Prif weithgaredd yr elusen yw hyrwyddo a chynorthwyo amcanion, gwaith a busnes yr Eglwys yng Nghymru'n gyffredionol, yn Esgobaeth Tyddewi.

Amcanion allweddol Bwrdd cyllid Esgobaeth Tyddewi (y Bwrdd) yw:

- Sicrhau fod yna gyllid digonol er cynnal y gwaith Cenhadu a Gweinidogaethu ar gyfer yr Esgobaeth
- Rheoli'r Portffolio buddsoddiadau Esgobaethol er sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf heb fentro'n ormodol
- Rheoli'r eiddo mae'r Bwrdd yn berchen arno a sydd ym meddiant y Bwrdd
- Galluogi gwasanaeth gweinyddol effeithiol a phroffesiynol dros ystod o weithrediadau gweinyddol, gan gynnwys:
    - rheolaeth ymddiriedolaethau a chronfeydd arian eraill sydd dan ofal y Bwrdd
    - trefnu Cyfafordydd Bwrdd a Phwyllgorau Esgobaethol
    - cynnal a chadw basiau data, gwybodaeth rheoli a chydsyniad deddfwriaethol
    - darparu cyngor a chefnogaeth ar ystod o faterion

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
## Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

O ran 2019 y prif amcanion oedd:

- **Perfformiad y Cronfeydd Ariannol** – sicrhau elw boddhaol yn unol â'r % a gytunwyd gydag Ymgynhorwyr Buddsoddiadau'r Bwrdd ac a gymharai'n deg yn erbyn meincnodau cydnabyddedig.

- **Arian Neilltuedig –** Cynnal symiau cydnabyddedig o arian wrth gefn yn y Gronfa Gyffredinol Ddigyfyngiad.

- **Sefydlogrwydd Ariannol** – Parhau i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a threfnu fod cost Gweinidogaeth yn ei le o ran yr Esgobaeth.

- **Strategaeth Esgobaethol –** Ymgysylltu â'r Esgob a'i staff hŷn, er mwyn helpu i weithredu'r Strategath Esgobaethol a fydd yn ymateb i'r heriau ariannol, economaidd a gweinidogaethol cyfredol sy'n wynebu'r Eglwys ac yn diwallu anghenion yr Esgobaeth.

Mae anghenion byr-dymor y Bwrdd fel y nodir uchod.

O ran yr hir-dymor, bwriad y Bwrdd yw sicrhau fod y newidiadau gweinidogaethol a strwythurol a fwriedir fel rhan o'r Strategaeth Esgobaethol, yn unol â meddylfryd cyfredol yr Eglwys.

### Y LLES CYHOEDDUS

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau fod y cyhoedd yn elwa'n amlwg o waith y Bwrdd, a hynny'n unol â'r amcanion sefydledig a'r gweithgareddau a ganiateir. Cyfeiriasant at yr arweiniad a geir yng nghanllaw cyffredinol y Comisiwn Elusennau ynglŷn â lles y cyhoedd, wrth adolygu eu bwriadau a'u hamcanion, ac wrth gynllunio'u gweithgareddau yn y dyfodol. Yn fwy na dim, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y bydd y cyfryw weithgareddau o fudd i'w bwriadau a'u hamcanion. Clustnodwyd swm o arian ar gyfer prosiectau ym maes Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn y gymuned ehangach.

### POLISÎAU GRANTIAU

Dyfernir pob grant drwy gydsyniad y Bwrdd.

### ADRODDIAD STRATEGOL

### CYRAEDDIADAU A PHERFFORMIADAU

- PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU

  - **Perfformiad y Portffolio Esgobaethol**

Pendiliol fu hanes gweddill y flwyddyn. Yn y gwanwyn a'r haf, ofnwyd gweld arafu unwaith eto o ran tyfiant byd-eang a gwelwyd buddsoddwyr pryderus yn heidio i geisio ymgeledd mewn bondiau llywodraeth, gan beri ildio o ran gwerth, yma ac yn yr Unol Daleithiau. Wrth i'r sefyllfa wella, bu i soddgyfrannau'r UD esgyn i'r entrychion, a gwelwyd stoc diwydiannol, sydd ar ei orau pan fo busnes ar i fyny, yn drech na stoc gwasanaethau cyhoeddus, sy'n fuddsoddiad sicrach pan fo busnes ar y goriwaered. Er fod yr economi fyd-eang yn dal i dyfu, mae gwrthdaro ym myd masnach ar hyd a lled y byd yn parhau i greu ansicrwydd. Cwymp mewn masnachu byd-eang fu hanes 2019 ar y cyfan, ac i bob golwg bu gostyngiad hefyd o ran cynhyrchu nwyddau.

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

Am y tro hwn, bu'r pôlau yn llygad eu lle – sicrhaodd y Blaid Geidwadol fwyafrif helaeth yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Rhagfyr a bu cynnydd aruthrol o ran cyfranddaliadau'r DG a'r bunt wedi'r canlyniad a'r eglurder pellach ddylai ddeillio, o ran Brexit. Mae marchnadoedd ariannol yn tueddu i hoffi dilyniant, yn enwedig pan fo newid digynsail bron, yn y gwynt. O ganlyniad bu soddgyfrannau'r DG yn drech na'r rhai tramor, gyda chwmnïau domestig llai ar y blaen. Cynhyrchwyd elw sylweddol gan bortffolio Bwrdd Cyllid Esgobaethol Tyddewi, gan ddangos cynnydd 13.40% ar ddiwedd y flwyddyn. O gymharu, roedd y meincnod cyfansawdd ar i fyny o 14.97%.
Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y portffolio yn werth £6,558,955 gyda £260,807 ymhellach o arian parod mewn cyfrif ar wahan.

- **Eiddo Buddsoddiedig**
  Prisiwyd yr eiddo hwn yn annibynnol gan brisiwr proffesiynol, yn ôl telerau'r farchnad agored, o ran tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, a hynny at ddibenion buddsoddi, a chafwyd fod y gwerth yn fwy o £1,678,765 na'i werth gwreiddiol. O werthu'r eiddo, ni fyddai'n rhaid talu treth, hyd y gwyddys.

- **Eiddo Rhydd-ddaliadol Cyfyngedig**
  Mae'r Eiddo Rhydd-ddaliadol Cyfyngedig yn cynnwys eiddo sydd ar brydles, a phedair hen ysgol. Prisiwyd yr eiddo sydd ar brydles yn 2016 gan brisiwr annibynnol, a'r pedwar eiddo arall gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr.

- CYNNAL Y WEINIDOGAETH

| Lefelau Cyflog Clerigiaid | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Curad Cynorthwyol | 21,115 | 20,620 |
| Ebrwyad a Ficer mewn Bywoliaeth Reithorol | 24,841 | 24,260 |
| Rheithor Bywoliaeth Reithorol | 26,083 | 25,473 |
| Canon Trigiannol | 28,568 | 27,900 |
| Archddiacon | 38,007 | 37,118 |
| Deon | 38,505 | 37,603 |

Derbyniodd y Bwrdd grant tuag at Gost y Weinidogaeth gan Gorff y Cynrychiolwyr. Tan 31 Rhagfyr 2006, Corff y Cynrychiolwyr fyddai'n ysgwyddo baich cyfan pensiynau clerigiaid; o hynny ymlaen talwyd cyfraniadau pensiwn clerigiaid cyfredol gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn dal i ariannu hyfforddiant gweinidogaethol, law yn llaw â Chorff y Cynrychiolwyr.

Nifer y clerigwyr cyflogedig yn yr Esgobaeth ar 31 Rhagfyr 2019 oedd 80.

Derbyniodd y Bwrdd gefnogaeth gan Gorff y Cynrychiolwyr fel a ganlyn:

- Gweinyddu taliad y Dreth Gyngor ar Bersondai
- Cefnogaeth TG
- Gweinyddu Cyflogau
- Cyngor ynglŷn â dyletswyddau statudol e.e., Rent Smart Cymru, Gwarchod Data
- Diogelu

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
## Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

### ADOLYGIAD ARIANNOL

- **Y SEFYLLFA ARIANNOL GYFAN**

Gwelir y canlyniadau am y flwyddyn ar dudalennau 20 i 22 yn Natganiad y Gweithgareddau Ariannol. Cafwyd fod yr incwm yn drech na'r gwariant, o ran y Cronfeydd Cyffredinol Digyfyngiad, a hynny o £65,783; roedd hyn, ar ôl addasu a chywiro gogyfer ag enillion/ (colledion), cynnydd yn y gwerth marchnadol a throsglwyddiadau, yn golygu fod yna weddill o £388,561.

Derbyniodd y Bwrdd grant gan Gorff y Cynrychiolwyr tuag at amrywiol ddibenion, sef swm o £1,142,191 (2018: £1,142,191).

Y prif ffynhonnell ariannol arall oedd y Gyfran Weinidogaethol, sef swm o £3,567,932.

- **POLISI ARIAN NEILLTUEDIG**

Mae'n bolisi gan yr Ymddiriedolwyr i gadw golwg yn gyson ar yr arian sydd gan y Bwrdd wrth gefn. Golyga hyn fod craffu manwl ar yr incwm a'r gwariant, yn sicrhau fod yr incwm newidiol yn ddigonol ar gyfer ymrwymiadau penodedig, a bod natur yr arian wrth gefn yn foddhaol.

**Arian Cyffredinol Digyfyngiad Neilltuedig**
Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai'r arian wrth gefn fod yn hafal i wariant chwe mis, o leiaf, o'r Gronfa Gyffredinol Ddigyfyngiad, er mwyn medru talu ei ffordd yn y tymor byr, a bwrw bod diffyg cyllidol annisgwyl.

Cynyddodd cyfanswm y Cronfeydd Cyffredinol Digyfyngiad o £5,448,806 i £5,837,367. Mae'r arian wrth gefn hwn yn cynnwys Cronfa Ailbrisiad Neilltuedig o £1,678,765. Mae'r arian sydd wrth gefn yn hafal i fwy na gwerth deg mis o arian neilltuedig.

**Cronfeydd Dynodedig**
Gall yr Ymddiriedolwyr, gyda chadarnhad y Bwrdd, ddynodi cadw arian digyfyngiad ychwanegol wrth gefn, at ddibenion y cytunwyd arno, lle bo hynny'n cael ei ystyried yn synhwyrol. Adolygir yr Arian Neilltuedig Dynodedig yn flynyddol, a'i ailosod yn y Cronfeydd Cyffredinol Digyfyngiad, oni fydd cyfiawnhad dros ei gadw o'r neilltu. Mae disgrifiad o bob cronfa, ynghyd â'i defnydd arfaethedig, wedi ei gynnwys yn Nodyn 25. Ar 31 Rhagfyr 2019, cyfanswm y Cronfeydd Dynodedig oedd £2,552,089 (2018: £2,757,115).

**Cronfeydd Cyfyngedig a Gwaddol**
Fel ag a geir yn Nodiadau 23 a 24, mae'r Bwrdd yn meddu ar ac yn gweinyddu, amryw Gronfeydd Cyfyngedig a Gwaddol. Ar 31 Rhagfyr 2019, roedd cyfanswm o £1,857,444 (2018: £2,104,980) mewn Cronfeydd Incwm Cyfyngedig, a chyfanswm o £3,963,755 (2018: £3,834,294) mewn Cronfeydd Gwaddol Cyfalaf Cyfyngedig. Nid oes un o'r cronfeydd hyn ar gael at ddibenion cyffredinol y Bwrdd.

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

- PRIF RISGIAU AC AMODAU ANSICR

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am adnabod, lleihau a/neu rheoli risg. I'r perwyl hwn, cedwir cofrestr o bob risg a nodir, hefyd llunir, ochr yn ochr â hynny, strategaeth i reoli a lleihau'r cyfryw. Adolygir hyn yn flynyddol gan yr Ymddiriedolwyr, ac ymddiriedir y cyfrifoldeb o weithredu'r strategaethau perthnasol, i'r Ysgrifennydd Esgobaethol.

Bu i'r Gofrestr Risg nodi pedair ardal lle yr ystyrir methu gweithredu neu effaith amgylchiadau, fel dwy risg 'uchel', sef y canlynol a'r strategaethau lleihau sy'n gysylltiedig â hwy:

Ymdrech Annigonol i Gasglu'r Gyfran Weinidogaethol
- ➢ Adroddir am yr ôl-ddyledion yn chwarterol, a chedwir golwg ar y sefyllfa gan y Pwyllgor Cyfran Weinidogaethol sy'n adrodd i'r Bwrdd. Hefyd hysbysir yr Archddiaconiaid a'r Swyddog Stiwardiaeth & Chefnogaeth am yr ôl-ddyledion (SSACh).
- ➢ Y Swyddog Stiwardiaeth & Chefnogaeth: ochr yn ochr â'r Archddiaconiaid, mae'n cysylltu â Phlwyf er mwyn trafod yr ôl-ddyledion neu ofid ynghylch talu'r Gyfran Weinidogaethol, a mae'n cynorthwyo â'r gwaith o adolygu'r cyfrifon a'r prosesau gweinyddu, gan gyflwyno argymhellion i geisio datrys y sefyllfa.
- ➢ Mae yna ddarpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer Cyfran Weinidogaethol sy'n ddyledus, a pherygl dybryd nas telir o gwbl.

Tan-Berfformio o ran Elw ar Fuddsoddiadau
- ➢ Arolygir yn gyson gan Ymgynghorydd Buddsoddiadau'r Bwrdd (Rathbones).
- ➢ Mae'r Is-Bwyllgor Buddsoddiadau'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn gydag Ymgynghorydd Buddsoddiadau'r Bwrdd i drafod hynt y Portffolio.

Methiant i dalu a/neu Leihad yn y Grant Bloc gan Gorff y Cynrychiolwyr.
- ➢ Sicrhau gweithredu yn unol ag amodau'r Grant Bloc.
- ➢ Cadw cyswllt a chyd-drafod cyson â Chorff y Cynrychiolwyr ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig.
- ➢ Y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Esgobaethol i gadw golwg.

Gwarchod Data
- ➢ Penodi person dynodedig.
- ➢ Cyswllt cyson ag ymgynghorwyr cyfreithiol y Bwrdd.

- POLISI BUDDSODDI

Gweinyddir y Portffolio Esgobaethol gan Rathbones, drwy drefniant rheoli diamod. Y bwriad yw ceisio sicrhau elw cyfan yn hytrach nag elw penodedig ar incwm neu gynnydd cyfalaf ar ei ben ei hun.

Mae yna symiau helaeth o arian parod wrth gefn, ym meddiant y Bwrdd, am fod graddfa'r llôg a ddeilliodd o'i gyfrifon cyfredol yn fwy na'r hyn a gynigiwyd ar gyfrifon adnau tymor-byr. Cynigiwyd y cyfryw raddfeydd gan gwmni Bancio'r Bwrdd wedi i'r Bwrdd ryddhau ei adolygiad o'r sefyllfa fancio. Nid yw'n bolisi gan y Bwrdd, fel rheol, i neilltuo cymaint o'i swmp asedau mewn arian parod. Fe allai'r Bwrdd weld yn dda i adolygu ei bolisi buddsoddi.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
## Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

### Amcanion Buddsoddi

Amcan y Bwrdd yw ceisio'r elw ariannol gorau heb fentro'n ormodol. O ran buddsoddi, cydbwysedd rhwng incwm ac elw cyfalaf yw'r nod.

Dylid rheoli'r asedau o leiaf er mwyn cynnal y gwerth cyfalaf gwirioneddol, tra'n cynhyrchu lefel gynaliadwy o incwm buddsoddiad er cynnal gweithgareddau Bwrdd Cyllid Esgobaethol Tyddewi.

Lle bo hynny'n bosib, dylid cynyddu gwerth yr asedau, fel eu bod o leiaf gyfuwch â chwyddiant yn yr hir-dymor.

Sicrhau elw cyfan yw nod buddsoddol y Bwrdd, gan gynhyrchu elw drwy incwm ac elw cyfalaf, neu golledion. Y disgwyl yw, a bwrw fod yr elw cyfan yn annigonol mewn un flwyddyn ar gyfer y gwariant arfaethedig, y bydd gwerth gwirioneddol buddsoddiadau'r Bwrdd yn dal yr un peth yn yr hir-dymor, yn unol â'r amcan fuddsoddi uchod.

Roedd Rathbones wedi newid y meincnod mesur perfformiad, gan ddefnyddio mynegai cytbwys arbennig WMA yn lle'r FTSE arferol, a hynny oherwydd ei anwadalrwydd.

### Risg

Nod y polisi buddsoddi yn gyffredinol yw sicrhau'r elw mwyaf, ochr yn ochr â'r lefel risg sy'n dderbyniol gan y Bwrdd. Sylweddola'r Bwrdd fod risg (h.y. y posibilrwydd fod gwerth asedau'n gallu bod yn anwadal) ac efallai gostyngiad yn y gallu i brynu (oherwydd chwyddiant) yn rhan annatod, i raddau, o bob math o fuddsoddiad.

Derbyniodd y Bwrdd raddfa risg ganolig.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn goddef anwadalrwydd o ran gwerth cyfalaf, a bwrw y bydd y Bwrdd yn medru talu ei ffordd, o ran gwariant byr-dymor.

Trefnwyd fod y portffolio'n amrywiol, er mwyn sicrhau, hyd y gellir, na fydd un math o fuddsoddiad yn effeithio'n anghymesur ar y portffolio cyfan. Fe allai'r asedau gynnwys arian parod, bondiau, ecwiti, eiddo, ecwiti preifat, nwyddau ac unrhyw ased arall a ystyrir yn addas, o gofio hefyd am gyfyngiadau moesegol. Rhaid fod bondiau a soddgyfrannau wedi eu rhestru ar gyfnewidfa fuddsoddi gydnabyddedig, ac unedau buddsoddi a chwmnïau buddsoddi penagored wedi eu hawdurdodi dan y Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000.

Er mwyn cyflawni ei amcan, penderfynodd y Bwrdd rannu ei asedau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Arian Parod | 0% - 7% |
| Llôg Penodedig | 15% - 35% |
| Soddgyfrannau | 53% - 80% |

O ran y soddgyfrannau, caniateir defnyddio cwmnïau daliannol tramor hyd at 50%.

Gall fod newid yn y gymysgedd asedau o dro i dro, yn strategol neu'n dactegol, hynny'n seiliedig ar yr argoelion yn y marchnadoedd economaidd a gwarant, hefyd y gofynion incwm; gall Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyllid – a bo hynny'n addas – newid yr ystod asedau uchod er mwyn ymateb i rymoedd y farchnad. Ni ddylai lefel risg yr asedau'n gyffredinol, o ran posibilrwydd llanw a thrai yn y farchnad, fod yn eithafol.

Yr Is-Bwyllgor Buddsoddiadau sy'n gyfrifol am nodi a dal sylw ar reolwyr buddsoddi addas, a hynny'n rheolaidd bob pum mlynedd. Trefnir talu'r rheolwyr buddsoddi yn unol â'r telerau y cytunir arnynt pan benodir hwy i'w swyddi. Mae'r ymgynghorwyr yn deall y dylid hysbysu'r Ymddiriedolwyr yn ddigon cynnar ymlaen llaw, os yw'r rheolwyr buddsoddi'n bwriadu adolygu eu ffioedd a'u comisiwn.

Gweithredir y portffolio buddsoddiadau drwy gyfrwng Sterling.

### Gofynion Hylifedd

Ni ddigwydd dadfuddsoddiad, fel arfer, yn hanes cronfeydd buddsoddiadau; eu hamcan yw cynhyrchu incwm a thwf cyfalaf. Mae ymgynghorwyr buddsoddi yn dal gafael mewn arian y bydd angen amdano ar fyrder yn ôl pob tebyg, ac nis cynhwysir y prif bortffolio. Ni ddylai'r portffolio gynnwys unrhyw symiau sylweddol o arian parod, oni fydd galw amdanynt ar gyfer prosiect arbennig. .

Ni ellir talu arian i'r prif bortffolio ond ar 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf ac 1 Hydref mewn unrhyw flwyddyn.

Rhaid trosglwyddo i gyfrif banc Cymynroddion Bwrdd Cyllid Esgobaethol Tyddewi, arian a grynhôdd ymhob mis – a hynny o fewn 30 diwrnod ers diwedd y mis priodol.

### Gorwel Amseryddol

Disgwylir i'r Bwrdd fodoli dros byth, a dylid rheoli buddsoddiadau er mwyn cyflawni'r bwriad buddsoddol a sicrhau'r cynaliadwyedd hwn.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu cyfnod buddsoddi hir-dymor.

### Buddsoddi Moesegol

A hithau'n Eglwys Gristionogol, bwriad yr Esgobaeth yw cydweithredu â phresenoldeb gweithredol Duw yn y byd, a chan gyhoeddi ac arddel gwerthoedd Teyrnas Dduw. Golyga hyn fod yr Eglwys â'i bryd ar hyrwyddo popeth sy'n ymwneud â chyfiawnder a heddwch, sy'n dyrchafu pobl, yn anrhydeddu'r greadigaeth ac yn hybu cymunedau dynol creadigol.

Dymuna'r Eglwys yng Nghymru gynnal polisi buddsoddi sy'n foesegol a sy'n unol â'i hamcanion a'i dyheadau. Cred y Bwrdd ei bod yn gwbl addas a phosib gweithredu'r fath bolisi, gan gofio ar yr un pryd fod yn rhaid sicrhau'r elw gorau o fuddsoddiadau, a defnyddio'r cyfryw fel modd moesegol o gyfrannu at gost gweinidogaeth a chenhadaeth yn y Dalaith.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
## Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

Nod yr Ymddiriedolwyr yw buddsoddi mewn cwmnïau llwyddiannus sy'n benderfynol o ddatblygu eu busnes er budd eu cyfranddalwyr, cwsmeriaid, cymunedau lleol a'u gweithwyr cyflog drwy weithredu fel a ganlyn:

- Yn gyfrifol o ran eu prosesau cyflogi.
- Yn gydwybodol o ran llywodraethiant corfforaethol.
- Yn ddoeth o ran polisïau ac arferion sy'n adlewyrchu gofal priodol dros yr amgylchedd a lles a ffyniant y drefn naturiol.
- Drwy bolisïau sy'n sensitif i iawnderau dynol a lles a llwyddiant unigolion, ac i gymunedau cysylltiedig â hwy.
- Yn deg o ran arferion masnach.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru, o ran ei pholisi buddsoddi, yn dra gofalus na fydd yn ymwneud â chwmnïau sy'n arddel cynnyrch neu bolisïau croes i'r amcanion hyn, na chwaith yn buddsoddi mewn cwmnïau:

- Sy'n gyfrifol am ddifrodi neu sarnu'r amgylchedd yn gwbl ddi-reswm.
- Sy'n gyfrifol am unrhyw beth sy'n bygwth heddwch, diogelwch a ffyniant y gymuned.
- Sy'n camddefnyddio, diraddio, llygru neu sarhau'r ddynoliaeth, yn enwedig y tlawd neu'r ariannol fregus.
- Sy'n ddi-hid o ran lles anifeiliaid.

Mae'r Bwrdd yn sylweddoli fod cymhlethdodau ynghylch arferion cwmnïau sydd efallai'n buddsoddi ar ei ran, a mynn y Bwrdd yr hawl i wneud penderfyniadau buddsoddi, fesul achos. Eir i gysylltiad â chwmnïau sy'n tanseilio neu'n ymylu ar danseilio'r polisi hwn, neu lle bo pryder ynglŷn â materion llywodraethiant a chyfrifoldeb cymdeithasol – hyn oll cyn ystyried diddymu'r cytundeb buddsoddi.

Dymuniad yr Eglwys yng Nghymru yw bod yn fuddsoddwr goleuedig a chyfrifol, ac i'r perwyl hwn fe'i cynrychiolir ar y Grŵp Buddsoddwyr Eglwysig, sy'n ffynhonnell ymchwil, gwybodaeth, rhannu arfer da gyda chyrff eraill, a lle gall cyfranddalwyr ar y cyd ddangos dylanwad fel cyfangorff.

Mae yna berthynas glodwiw rhwng y Pwyllgor Buddsoddi a Grŵp Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru, sy'n medru delio ag achosion trafferthus ar gais y Pwyllgor, a sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol yn ei dro.

Mae Esgobaeth Tyddewi'n cytuno'n llwyr â pholisi'r Eglwys yng Nghymru fel y nodir uchod.

Polisi'r Bwrdd yw peidio, ar y cyfan, â buddsoddi mewn unrhyw gwmni sy'n:

- Ennill mwy nag 20% o'i drosiant o ganolbwyntio ar hapchwarae, neu gynhyrchu neu werthu diodydd meddwol neu gynnyrch tybaco;
- Ennill mwy na 5% o'i drosiant o bornograffi, benthyciadau amheus, neu ddelio anghyfrifol mewn arfau, oddieithr arfau amddiffyn cyfreithlon a chadw heddwch yn rhyngwladol.
- Ennill mwy na 10% o'i drosiant o fusnes cloddio am lo gwresol neu o gynhyrchiant olew allan o dywodydd tar.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
## Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019

### Rheoli, Adrodd a Chadw Golwg

Mae'r Bwrdd wedi penodi cwmni rheoli-buddsoddiadau proffesiynol i ymdrin â'r asedau yn ddiamod, a hynny'n unol â'r polisi hwn. Rhaid iddynt gydymffurfio â'r cyfreithiau perthnasol oll, y rheolau a'r rheoliadau.

Mae'r rheolwr buddsoddiadau yn gwarchod yr asedau. Rhaid iddynt gyflwyno adroddiadau prisiannol a pherfformiad bob chwarter, yn nodi fel a ganlyn:

- Rhestr o'r buddsoddiadau oll, ynghyd â'u pris gwreiddiol, eu gwerth cyfredol ar y farchnad, yr incwm a'r llog tybiedig.
- Dadansoddiad perfformiad ar gyfer cyfnod yr adroddiad (chwarterol).
- Amserlen Fusnes yn dangos manylion prynu a gwerthu.
- Manylion unrhyw ddeliadau all-farchnadol a chyfranddaliadau cyfalafiad, cyfalafiadau neu weithrediadau corfforaethol eraill.
- Adolygiad manwl o'r sefyllfa farchnadol ar gyfer y cyfnod, gan gynnwys sylwadau penodedig ar ddaliadau unigol yn y portffolio, ac unrhyw ystyriaethau economaidd eraill sy'n berthnasol.

Mae Is-Bwyllgor Buddsoddiadau'r Bwrdd yn gyfrifol am gytuno ar strategaeth ac am gadw golwg ar asedau'r fuddsoddiad. Cyferfydd yr Is-Bwyllgor chwe gwaith y flwyddyn i awdurdodi unrhyw endyniannau ac ymgorfforiadau, ac i adolygu'r portffolio, gan gynnwys dadansoddiad o elw, risg a dyraniad asedau. Cedwir golwg ar berfformiad yng ngoleuni meincnod cydnabyddedig (meincnod arbennig Rathbones).

Rhaid i'r rheolwr buddsoddi fod yn bresennol mewn dau o gyfarfodydd yr Is-Bwyllgor Buddsoddiadau. Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion penodedig a nodir yn natganiad y polisi buddsoddi, rhaid i'r rheolwr buddsoddi dalu sylw i'r pŵer buddsoddi cyffredinol sy'n amlwg yn Adran 3, Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Dylai pob buddsoddiad fod yn gymwys, a bod, ar y cyfan, yn amrywiol, yn unol â gofynion Adran 4, Deddf Ymddiriedolwyr 2000.

Rhaid i'r Is-Bwyllgor Buddsoddiadau gyflwyno adroddiad ffurfiol i Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd.

## CYNLLUNIAU AR GYFER CYFNODAU'R DYFODOL

Mae'r materion arwyddocaol canlynol dan ystyriaeth gan y Bwrdd gogyfer â'r byr a'r canolig dymor:

- **Y Ddeddf Elusennau 2011**
  Mae oblygiadau'r ddeddfwriaeth hon, o ran plwyfi unigol, yn hysbys i'r Bwrdd, a, law yn llaw â Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, mae'r Bwrdd yn cynghori ac yn helpu plwyfi. Ar hyn o bryd, ond plwyfi sydd ag incwm dros £100,000 a orfu gofrestru. Nid felly plwyfi sydd ag incwm dan £100,000, sy'n parhau wedi eu heithrio, a heb orfod cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau; ymestynnwyd y consesiwn byrhoedlog hwn tan 31 Mawrth 2021.

- **Cofrestru Tir**
  Cofrestrir unrhyw dir sydd ym meddiant y Bwrdd, gyda'r Gofrestrfa Dir, fel mater polisi. Mae'r Bwrdd yn parhau i nodi ym mha fodd y mae'n meddu'r tir/eiddo e.e. fel Ymddiriedolwr Gwarcheidiol, neu a oes atchweliad ynghlwm wrtho, neu a yw'n berchen arno.

- **Y Gyfran Weinidogaethol**
  Ceisir ffrwyno cynnydd yn y Gyfran Weinidogaethol er mwyn sicrhau ei bod yn gynaliadwy a chasgladwy, hefyd er mwyn cadw golwg ar lefel yr ôl-ddyledion.

- **Y Strategaeth Esgobaethol**
  Mae Esgob Tyddewi a'r Bwrdd yn cydweithio er mwyn creu a gweithredu strategaeth Esgobaethol i ddygymod â'r heriau ariannol ac economaidd sy'n wynebu'r Eglwys, ac i ddiwallu anghenion yr Esgobaeth.

- **Gwarchod Data**
  Mae'r Bwrdd yn parhau i archwilio a sicrhau y cedwir pob gwybodaeth/ddata yn yr Esgobaeth, gan gydymffurffio â'r Ddeddf Gwarchod Data a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol.

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

Mae'r Bwrdd yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant.

- AELODAETH– CYFANSODDIAD

  Penodir aelodau'r cwmni am gyfod o dair blynedd. Wedi i'r Bwrdd dderbyn yr Erthyglau Cwmni diwygiedig, trefnwyd yr aelodaeth fel a ganlyn:

  - Yr Esgob
  - Cadeirydd (Penodir gan yr Esgob)
  - Wyth aelod Ex-Officio (y Deon, yr Archddiaconiaid, Cadeirydd y Bwrdd Persondai, y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol a'r Cofrestrydd Esgobaethol)
  - Chwe aelod Lleyg Enwebedig (dau/dwy o bob Archddiaconiaeth)
  - Tri/Tair aelod Lleyg Etholedig (un o bob Archddiaconiaeth)
  - Tri/Tair aelod Ordeiniedig Enwebedig (un o bob Archddiaconiaeth)
  - Pedwar/Pedair aelod Cyfetholedig (un ohonynt yn unig yn glerig)

- AELODAETH – CYFLWYNIAD A HYFFORDDIANT

  Darparodd y Bwrdd hyfforddiant ar gyfer ei aelodau, cymesur â'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr Elusennol ac fel aelodau o un o'r Pwyllgorau Esgobaethol, a mae'n cynhyrchu rhaglen ddatblygu proffesiynol barhaol.

- PWYLLGORAU

  Mae gan Fwrdd Cyllid Esgobaethol Tyddewi y Pwyllgorau canlynol:

- **Y Pwyllgor Gweithredol**
  Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am reoli cyllid ac asedau'r Esgobaeth.

- **Y Bwrdd Persondai**
  Mae'r Bwrdd Persondai yn gyfrifol am gynnal a chadw'r persondai oll, am eu trwsio a'u hadnewyddu, ac am brynu a gwerthu persondai yn ôl y galw.

- **Y Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig**
  Pwyllgor statudol yw'r Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig, gan ddwyn cyfrifoldeb am ariannu prosiectau, a gwaith trwsio ac adnewyddu ysgolion eglwys, am yrru prosiectau newydd ac am drefnu/gael gwared ag adeiladau-ysgol di-ddefnydd.

- **Yr Is-Bwyllgor Buddsoddiadau**
  Awdurdodir yr Is-Bwyllgor Buddsoddiadau, o dderbyn cyngor gan Ymgynghorwyr Buddsoddi'r Bwrdd, i benderfynu fel sy'n briodol ynglŷn â thrin buddsoddiadau'r Bwrdd, a hynny'n unol â strategaeth a pholisïau'r Bwrdd.

- **Y Pwyllgor Apeliadau parthed y Gyfran Weinidogaethol**
  Mae'r Pwyllgor Apeliadau parthed y Gyfran Weinidogaethol yn gyfrifol am weithredu "y Drefn Apeliadau" gogyfer â Dyraniad y Gyfran Weinidogaethol. Gall y Pwyllgor, fel y gwêl yn dda - lle bo ôl-ddyledion y Gyfran Weinidogaethol o'r gorffennol ond nid o ganlyniad i apeliadau blaenorol neu ystadegau anghywir a gyflwynwyd – ddewis ystyried achos a gyflwynwyd i bwyso a mesur yr amodau hanesyddol a achosodd yr ôl-ddyled(ion).

- **Yr Is-Bwyllgor Adnoddau Dynol**
  Mae'r Is-Bwyllgor Adnoddau Dynol yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a dulliau gweithredu ar gyfer staff lleyg, yn unol â deddfwriaeth gyfredol ac ymarfer da. Mae gwaith yr Is Bwyllgor yn cwmpasu lefelau staffio yn y Swyddfa Esgobaethol, hefyd cyflogau'r staff lleyg.

- **Y Pwyllgor Archwilio a Risg**
  Mae'r Pwyllgor archwilio'n gyfrifol am adolygu prosesau rheoli mewnol y Bwrdd, ac am hysbysu'r Pwyllgor Gweithredol am unrhyw faterion a godwyd gan/drafodwyd gydag Archwilwyr y Bwrdd, wedi cwblhau'r archwiliad blynyddol. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn adolygu Cofrestr Risg y Bwrdd yn rheolaidd, hefyd yn pwyso a mesur materion yn ymwneud â hydrinedd a llywodraethiant.

- **Yr Is-Bwyllgor Eiddo**
  Mae'r Is-Bwyllgor Eiddo'n gyfrifol am reoli eiddo buddsoddedig y Bwrdd, eiddo a feddir fel Ymddiriedolwr Gwarcheidiol, ac am arolygu'r gwaith strategol o gynllunio'r portffolio eiddo.

- **Pwyllgor y Gyllideb**
  Mae'r Pwyllgor hwn sydd newydd ei ffurfio, yn gyfrifol am gadw golwg ar y gyllideb gyfredol ac am gynllunio ar gyfer cyllidebau a gwariant yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, rhoddir ystyriaeth i effaith agweddau o Fywyd Esgobaethol – o ran maint ac ansawdd, gan gynllunio yn ogystal, ar gyfer gofynion cyllidol hir-dymor.

- **Pwyllgor y Gyfran-Weinidogaethol**
  Pwyllgor arall sydd newydd ei ffurfio, gan fod yn gyfrifol am gadw golwg ar lefelau cyfredol ôl-ddyledion, o ran y Gyfran Weinidogaethol, ac am ystyried dulliau adfer y dyledion coll hyn. Mae'r pwyllgor yn cysylltu'n frwd ag eglwysi drwy Swyddog Stiwardiaeth a Chefnogaeth yr Ardal Weinidogaeth leol, hefyd yr Archddiacon perthnasol.

- **Y Pwyllgor Grantiau**
